OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 93 (Cy. 18)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Pont Britannia, Gwynedd ac Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *24 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Pont Britannia, Gwynedd ac Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 01:00 o'r gloch ar 24 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A55 yn Siroedd Gwynedd ac Ynys Môn sy'n ymestyn o Gyffordd 8 i Gyffordd 9.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd oddiweddyd, ar y darn o'r gefnffordd yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiad y cyfeiriwyd ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd.

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (Llanfairpwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1983**(3)** drwy hyn wedi eu hatal yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennwyd yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt ar waith.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1983/1772